**Shan Morgan**
Secretary signs
Ysgrifennydd Parhaol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Awst 2017

Annwyl Cadeirydd,

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i waith craffu'r Pwyllgor ar Gyfrifon Blynyddol 2015-16 Llywodraeth Cymru, ac yn benodol mewn perthynas ag Argymhelliad 12:

***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad cyn craffu ar gyfrifon y flwyddyn nesaf ar fanylion y trefniadau a roddwyd ar waith i gryfhau'r system o ran gweinyddu taliadau teithio rhatach.***

Derbyniwyd yr Argymhelliad fel a ganlyn:

***Mae Llywodraeth Cymru yn olrhain gwelliannau i'r broses a'r trefniadau rheoli a roddwyd ar waith mewn perthynas â thocynnau teithio rhatach. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y tro nesaf y bydd yn ystyried materion cyfrifyddu, cyn craffu ar gyfrifon 2016-17, neu yn unol â chais y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.***

Bydd y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2016-17 yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir. Gweler isod ymateb i argymhelliad y Pwyllgor. Rwy'n gobeithio y bydd y gronoleg a ddarperir hefyd yn mynd i'r afael â'r cwestiynau a godwyd mewn perthynas ag adroddiad ATCO 2012 ar ardal Gwynedd, a godwyd gan Lee Waters AC yn dilyn sesiwn ymadael fy rhagflaenydd ym mis Tachwedd y llynedd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 03000258289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

**Crynodeb o weithrediad y cynllun**
Mae adran 93 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 yn gwneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am weinyddu cynlluniau teithio rhatach, gan gynnwys ad-dalu gweithredwyr bysiau. Cyflwynwyd cynllun tocynnau teithio rhatach gorfodol Llywodraeth Cymru ar gyfer bysiau yn 2002. Mae'r cynllun gorfodol yn berthnasol drwy gydol y dydd i unrhyw wasanaeth bws lleol sy'n gweithredu. Mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol sicrhau nad yw'r gweithredwyr bysiau hynny yn ddim gwell na gwaeth eu byd. Mae awdurdodau lleol yn derbyn anfonebau'r cwmnïau bysiau ac mae rheidrwydd arnynt i'w gwirio. Yna bydd yr awdurdodau'n talu'r anfonebau hynny ac yn hawlio'r symiau hynny yn ôl gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod oes y cynllun, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn adolygiadau o'r fformiwla y mae awdurdodau lleol yn ei defnyddio i gyfrifo'r ad-daliad y mae'n rhaid iddynt ei dalu i weithredwyr gwasanaethau bysiau. Nid honiadau o dwyll a oedd yn gyfrifol am ysgogi'r adolygiadau hynny. Yn hytrach roeddent yn rhan o broses gadarnhau bod awdurdodau lleol yn parhau i gydymffurfio â'u dyletswydd i sicrhau nad yw'r gweithredwyr yn ddim gwell na gwaeth eu byd, a diogelu arian cyhoeddus.

Er gwybodaeth, mae'r fformiwla fel a ganlyn:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £ | = | Nifer y teithiau | x | Tocyn Teithio Rhatach Cynrychioliadol | x | Cyfradd Ad-dalu |

Nifer y teithiau yw'r rhai a gofnodir yn electronig neu â llaw bob tro y bydd deiliad cerdyn teithio yn mynd ar daith. Mae'r Tocyn Teithio Rhatach Cynrychioliadol yn adlewyrchu'r hyn y byddai'n rhaid i ddeiliad y cerdyn ei dalu fel arall, ac mae'r Gyfradd Ad-dalu yn ystyried y teithiau a gynhyrchir a chostau ychwanegol i'r gweithredwr.

**Cronoleg**
Yn ystod 2011, aeth sibrydion ar led ynghylch anghysondebau posibl mewn hawliadau yn ardal Gwynedd. Cychwynnodd Llywodraeth Cymru adolygiad gan y Gymdeithas Swyddogion Cydlynu Trafnidiaeth (awdurdodau cyhoeddus) (ATCO), a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2012. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd digon o ddata sylfaen i ddod i unrhyw gasgliad pendant bod y Tocynnau Teithio Rhatach Cynrychioliadol a ddefnyddiwyd gan Gyngor Gwynedd yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r prisiau a godwyd ym mis Medi 2009. Argymhellwyd y dylid gwneud rhagor o waith archwilio, fodd bynnag cydnabuwyd y byddai angen darparu data sylfaen llawn er mwyn cynnal archwiliad manwl. Nid oedd y data angenrheidiol, na'r dechnoleg sydd ei hangen i'w dadansoddi, ar gael ar y pryd. Atgoffwyd yr awdurdodau lleol o'u cyfrifoldebau yn 2013, ond nid oedd


Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

modd cymryd unrhyw gamau cyfreithiol penodol oherwydd na chanfuwyd tystiolaeth bendant o dwyll.

Yng ngwanwyn 2014 darganfu swyddogion achosion posibl o 'ddefnydd gormodol' o gerdyn teithio, ac yn dilyn ymchwiliadau pellach canfuwyd nad oedd hwn yn ddigwyddiad unigryw. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl mynd ar drywydd hyn ymhellach oherwydd cyfyngiadau'r systemau data a oedd ar gael ar y pryd. Yn ystod haf 2014 comisiynwyd offeryn dadansoddi a chymerodd hwnnw rhyw bedwar mis i'w ddatblygu. Yna penodwyd swyddog pwrpasol i oruchwylio'r gwaith hwn, gan ganiatáu inni fonitro a herio lefelau defnydd y tocynnau teithio rhatach.

Comisiynwyd dilysiad annibynnol o'r negeseuon data rhwng peiriant y bws a'r system swyddfa gefn ac adroddwyd bod y cywirdeb rhwng y systemau yn ddim llai na 98%+ (ac yn y rhan fwyaf o achosion 100%). Caniataodd yr offeryn dadansoddol i swyddogion ofyn rhagor o gwestiynau ar sail y data ac roedd yn golygu y gallem adnabod y defnydd o gardiau teithio o fewn eiliadau. Defnyddiwyd yr offeryn dadansoddol i ddarparu data fel rhan o ymchwiliad yr heddlu i Padarn Bus ac mae wedi bod yn allweddol i wneud gwaith pellach i gryfhau mesurau a rheolaethau atal twyll a ddisgrifir isod.

**Gwaith Archwilio Mewnol a mesurau i wella atal twyll ymhellach**
Ar ôl dechrau ar ei swydd ym mis Rhagfyr 2015, cychwynnodd Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith adolygiad archwilio mewnol o'r cynllun teithio rhatach ar fysiau, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2016 - y trydydd archwiliad o'r fath. Ar ddiwedd mis Hydref 2016, daeth archwiliad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol o'r cynllun i ben. Mae'r holl gamau rheoli wedi cael eu rhoi ar waith, ac eithrio'r llythyr 'cynnig grant' cryfach i Brif Weithredwyr awdurdodau lleol ar gyfer 2016-17 - ni roddwyd hyn ar waith gan yr ystyriwyd ei bod yn rhy hwyr yn y flwyddyn i lythyr o'r fath gael effaith. Cyhoeddwyd 'cynnig grant' cryfach ar gyfer 2017-18 a gofynnwyd i bob Prif Weithredwr ymrwymo i'r amodau. (Atodir enghraifft er gwybodaeth i'r Pwyllgor.)

Mae swyddogion yn parhau i gryfhau mesurau a rheolaethau atal twyll ar y cyd ag awdurdodau lleol. Er enghraifft:

- Rydym yn defnyddio gwasanaeth paru data y Fenter Atal Twyll Genedlaethol i nodi cardiau teithio y dylai awdurdodau lleol fod wedi'u canslo.

- Rydym yn craffu ar wybodaeth am batrymau teithio deiliaid cardiau teithio unigol, megis nifer y teithiau bob dydd, ar ba wasanaethau y maent yn teithio, gyda pha weithredwr a hyd yn oed pa yrwyr. Rydym wedi adolygu patrymau defnydd deiliaid cardiau teithio presennol a nodi'r rhai nad ydynt byth yn defnyddio eu cerdyn, neu'r rhai nad ydynt wedi ei ddefnyddio ers peth amser. Rhennir y data

gyda'r awdurdodau lleol er mwyn iddynt gysylltu â deiliaid y cardiau, os bydd angen.

- Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith i lanhau data awdurdodau lleol ar ddeiliaid cardiau teithio er mwyn dileu pobl sydd wedi marw neu a allai fod wedi gadael Cymru.

- Mae adroddiadau data manwl wedi cael eu hanfon at bob awdurdod lleol ers mis Gorffennaf 2016 er mwyn iddynt graffu ar anfonebau ac yna'u dilysu. Rydym wedi ei gwneud yn glir i weithredwyr bysiau ein bod yn disgwyl i awdurdodau lleol symud yn gyflym i sefyllfa lle yr ystyrir bod y data y mae gennym ni a'r awdurdodau lleol fynediad iddynt bellach yn gywir, ac y bydd y cyfrifoldeb ar unrhyw weithredwr i ddangos pam y dylid defnyddio ei ddata ei hun yn lle hynny er mwyn cyfrifo ad-daliad.

- Mae nifer o weithdai hefyd wedi cael eu cynnal i addysgu'r awdurdodau lleol am y math o ddata sy'n bodoli a beth i edrych amdano, ac i'w helpu drwy ein huned dwyll os byddant yn sylwi ar unrhyw beth anarferol yn y data. Er enghraifft, mae un awdurdod wedi defnyddio'r data i nodi deiliad cerdyn teithio ag anghenion penodol sydd wedi bod yn tapio ei gerdyn teithio sawl gwaith, heb werthfawrogi effeithiau hynny. O ganlyniad, mae gyrwyr bysiau wedi cael cyfarwyddyd i gymryd y camau unioni - ystyriol - priodol. Yn ogystal, mewn achos arall sy'n deillio o'r offeryn newydd hwn a chraffu manylach gan awdurdodau lleol, mae un gweithredwr bysiau wedi diswyddo un o'i yrwyr y canfuwyd ei fod wedi bod yn defnyddio ei gerdyn ei hun i gynyddu nifer y teithiau rhatach a gofnodwyd.

- Rydym wedi cyhoeddi llythyrau 'cynnig grant' llawer mwy clir a phenodol i awdurdodau lleol, gan nodi'n llawer mwy manwl rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn 2017-18. Mae'r rhain yn disgrifio'n glir iawn y safonau yr ydym yn disgwyl i awdurdodau lleol eu cyrraedd pan fyddant yn gwirio ac yn dilysu ceisiadau gweithredwyr bysiau am ad-daliad.

- Mae Prif Weithredwyr awdurdodau lleol wedi cael eu hatgoffa am eu dyletswyddau cyfreithiol drwy'r llythyr dyfarnu uchod. Bydd datganiad o sicrwydd wedi'i lofnodi gan eu swyddog ariannol yn cyd-fynd â phob anfoneb a gyflwynir gan awdurdodau lleol, yn unol ag amodau'r llythyr dyfarnu.

- Rydym wedi cyflwyno gweithdrefnau talu newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog ardystio gadarnhau bod anfonebau awdurdod lleol yn cynnwys datganiadau o sicrwydd wedi'u llofnodi gan y swyddog ariannol cyfrifol yn ogystal ag un person arall cyn gofyn i'r taliad gael ei awdurdodi.

- Nodwyd gweithredwyr nad oeddent wedi rhoi'r system 'hotlisting' ar waith drwy'r offeryn dadansoddol ac mae'r gweithredwyr hynny bellach wedi rhoi'r system honno ar waith, yn dilyn ymgyrch gyhoeddusrwydd mewn rhai ardaloedd. (Mae 'hotlisting' yn caniatáu i gardiau electronig annilys gael eu 'diffodd' yn ganolog gan y gweithredwr).

- Rydym wedi hwyluso mecanwaith gweinyddol newydd, symlach yn ne-ddwyrain Cymru, lle y mae dau o'r awdurdodau yn rhannu cyfrifoldebau gweinyddol allweddol ar ran pob un o'r 10 awdurdod lleol. O dan y trefniant hwn, mae llai o staff yn arbenigo mewn cyfrifoldebau penodol, gan atgyfnerthu a gwella arbenigedd. Yn amodol ar ganfyddiadau'r gwaith hwn, bydd prosesau newydd a gwell yn cael eu cyflwyno ledled Cymru.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth uchod a'r rhestr o gamau gweithredu yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y gwelliannau rheoli cywir ar waith. Rwyf wedi gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn fy hysbysu am y cynnydd.

Cofion,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk